

Cyfeirnod(au) y Papur

6953/01

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 3: Y Gweithiwr Gwybodaeth

Mai 2008

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Ni ddylai gael ei ddosbarthu i ymgeiswyr yn gynharach na thair wythnos waith cyn yr arholiad.

Ffeiliau ymarfer: GBBC_practice.xls
Sales Data_practice.txt

Caiff y disgrifiad drosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Rhif Log yr Argraffwr

N34752A



N 3 4 7 5 2 A

W850/R6953/57570 1/1/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2008 Edexcel Limited.

Trowch y dudalen

edexcel 
advancing learning, changing lives

Cwmni Adeiladu Green Bay



Sefydlwyd Cwmni Adeiladu Green Bay yn 2003 gan David Green. Roedd David wedi hyfforddi fel pensaer ac mae wedi bod yn cynllunio tai ers 1985. Gydag amser, mae David wedi dechrau pryderu am gynhesu bydeang ac mae wedi cyflwyno i gynlluniau ei dai agweddau er mwyn sicrhau bod ôl-troed carbon y preswylwyr mor fach â phosibl. Yn anffodus mae'r addasiadau hyn yn tueddu i wneud y tai yn fwy drud i'w cynhyrchu. Nid oedd y cwmni adeiladu yr oedd David yn gweithio iddo ar y pryd yn hoffi'r addasiadau gan eu bod yn golygu llai o elw. O ganlyniad, cafodd

David gyfarwyddyd i'w tynnu o'i gynlluniau.

Gan nad oedd yn gallu dod o hyd i gwmni adeiladu i fabwysiadu ei gynlluniau chwyldroadol, penderfynodd David mai'r unig ffordd y byddai ei gynlluniau'n cael eu derbyn oedd petai'n creu ei gwmni adeiladu ei hun. O ganlyniad, crëwyd Cwmni Adeiladu Green Bay.

Ers ei gychwyn mae Cwmni Adeiladu Green Bay wedi creu nifer o ddatblygiadau llwyddiannus. Mae David wedi darganfod y bydd rhai pobl yn talu'n ychwanegol os ydynt o'r farn bod y tŷ yn eco-gyfeillgar ac y byddent yn talu mwy byth pe byddent o'r farn y byddai arbedion o ran tanwydd.

Yn ddiweddar, mae Cwmni Adeiladu Green Bay wedi caffael 100,000m² o safle adeiladu tir llwyd (*brown-field*) yn Tewkesbury ac mae David yn bwriadu adeiladu stad dai eco-gyfeillgar yno. Mae David wedi gosod targed y dylai uchafswm ôl-troed carbon arfaethedig y stad gyfan fod yn 1000 o dunelli metrig y flwyddyn. Gan ei fod yn ddyn busnes, mae angen iddo wneud elw. I helpu cyflawni hyn, mae wedi gosod cyfyngiad ar y gost ddatblygu, sef £95,000,000. Er mwyn cael caniatâd cynllunio, bu'n rhaid i Gwmni Adeiladu Green Bay gytuno na fyddai mwy na 200 o un math penodol o dŷ yn cael eu hadeiladu.

Ar hyn o bryd mae gan Gwmni Adeiladu Green Bay bum math gwahanol o dŷ. Mae'r tabl yn dangos y math o dŷ, beth yw cost pob un ohonynt i'w adeiladu ac isafbwynt maint y tir sydd ei angen.

| Math o dŷ | Cost Adeiladu | Arwynebedd Angenrheidiol |
|--------------------------|----------------------|---------------------------------|
| Fflat 1 Ystafell Wely | £100,000.00 | 130m ² |
| Tŷ Teras 2 Ystafell Wely | £167,000.00 | 150m ² |
| Tŷ Pâr 3 Ystafell Wely | £200,000.00 | 200m ² |
| Tŷ Sengl 4 Ystafell Wely | £230,000.00 | 300m ² |
| Tŷ Sengl 5 Ystafell Wely | £280,000.00 | 375m ² |

Mae'r holl adeiladau wedi cael eu creu o ddeunyddiau a gynhyrchwyd drwy brosesau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau cyn lleied o allyriadau carbon ag y bo modd. Yn ogystal, mae nodweddion ychwanegol y gellid eu defnyddio i leihau'r costau tanwydd ac felly leihau'r ôl-troed carbon.

Mae'r nodweddion a'u costau yn y tabl hwn.

| Nodweddion | Costau |
|------------------------|---------------|
| Paneli Solar | £500.00 |
| Tyrbinau Gwynt | £6,000.00 |
| Inswleiddio Wal Geudod | £6,000.00 |
| Inswleiddio'r Llofft | £6,000.00 |
| Gwydro Dwbl | £6,000.00 |

Eich Rôl Chi

Rydych wedi cael eich cyflogi fel arbenigwr Technoleg Gwybodaeth gan Gwmni Adeiladu Green Bay. Rhoddwyd i chi fodel wedi'i gwblhau'n rhannol, a grëwyd gan eich rhagflaenydd (*predecessor*) er mwyn helpu i gynghori Cwmni Adeiladu Green Bay am wahanol agweddau ar y datblygiad.

Disgrifiad o'r model

Mae'r model a gwblhawyd yn rhannol yn caniatáu i chi roi cynnig ar gyfuniadau gwahanol fathau o dai yn y stad ac mae hefyd yn caniatáu i chi ychwanegu nodweddion sy'n arbed tanwydd.

| Taflen waith | Disgrifiad |
|-------------------------|--|
| <i>Calculation Page</i> | Y daflen waith ' <i>Calculation Page</i> ' yw'r dudalen grynodeb lle byddwch yn addasu niferoedd pob math o dŷ yn y datblygiad a hefyd yn neilltuo'r nodweddion arbed tanwydd i'r math penodol o dŷ. Bydd yr arwynebedd y mae eich datblygiad yn ei gwmpasu, ei ôl-troed carbon, ei gost cychwynnol a'r elw y byddwch yn ei wneud yn cael eu dangos ar y dudalen hon. Gellir gosod colofn maint yr elw i roi elw o hyd at 9% ar fathau unigol o dai. |
| <i>House Types</i> | Bydd y daflen waith ' <i>House Types</i> ' yn cynnwys manylion sylfaenol am bob math o dŷ. Bydd y manylion hyn yn cynnwys yr ôl-troed carbon cyfartalog a'r arwynebedd cyfartalog y mae pob math o dŷ yn ei gymryd. |
| <i>House Costs</i> | Bydd costau adeiladu'r datblygiad yn cael eu cyfrifo o gostau cychwynnol sydd wedi'u storio yn y daflen waith hon. |
| <i>Fuel Bills</i> | Bydd y daflen waith hon yn cyfrifo'r biliau tanwydd cyfartalog ar gyfer pob math o dŷ. Bydd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw agweddau arbed tanwydd rydych wedi'u cynnwys. |
| <i>Costs</i> | Bydd y daflen waith hon yn cynnwys costau'r gwahanol nodweddion arbed tanwydd a bydd yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r biliau tanwydd cyfartalog. |
| <i>Sales Data</i> | Bydd y daflen waith hon yn cynnwys data am nifer y mathau o bob tŷ a fyddai'n cael eu gwerthu am brisiau gwahanol. |

Mae rhai celloedd yn y model wedi'u diogelu gan gyfrinair. Os ydych yn dymuno arbrofi â'r model, y cyfrinair yw *edexcel*. Dylech fod yn ymwybodol os ydych yn newid cynnwys unrhyw gell sydd wedi'i diogelu ei bod yn bosibl na fydd y model yn gweithio.